**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**
**Dydd Mawrth 16 Ebrill 2024, 2pm-4pm**
**Ystafell Gyfarfod CAYRh Ysbyty Brenhinol Caerdydd, Heol Glossop**
**Caerdydd CF24 0SZ**

| | |
|---|---|
| <u>**Yn bresennol**</u> | |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | |
| Y Cynghorydd Huw Thomas | Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) |
| **(Cadeirydd)** | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd |
| Claire Beynon | Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP CaF) |
| | Prif Weithredwr, CC |
| Paul Orders | Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC |
| Sarah McGill | Pennaeth Gweithrediadau Canol y De, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| David Letellier | (CNC) |
| | Rheolwr Grŵp Caerdydd a Chaerffili, Gwasanaeth Tân ac Achub De |
| Gareth Evans | Cymru (GTADC) |
| | Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru (HDC) |
| Martyn Stone | Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHT) De Cymru |
| Alun Michael | Prif Swyddog Gweithredol, C3SC |
| Sheila Hendrickson-Brown | Pennaeth Uned Gyflenwi Prawf (UGP) y Gwasanaeth Prawf |
| Eirian Evans | Cenedlaethol (GPC) |
| | Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, |
| Zenny Saunders | Llywodraeth Cymru (LlC) |
| **Ymddiheuriadau:** | Cadeirydd, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Charles Janczewski **(Is-gadeirydd)** | Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Abigail Harris | Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Suzanne Rankin | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC |
| Gareth O'Shea | Prif Swyddog Tân, GTADC |
| Huw Jakeway | Cyfarwyddwr yr Uned Atal Trais, HDC |
| Dan Jones | |
| | Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Gareth Newell | Pennaeth Cydlyniant a Diogelwch Cymunedol, CC |
| Sian Sanders | Swyddog Cynllunio a Gwella, CC |
| Abigail Streeter | Pennaeth Partneriaethau Strategol ac Ymgysylltu, BIP Caerdydd a'r |
| Sarah Tipping | Fro |
| Dr Ayla Cosh | Cyfarwyddwr Clinigol Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r |
| Paul Bostock | Fro, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Lynne Topham | Prif Swyddog Gweithredu, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Matt Evans | Rheolwr Ardal, Ardal De a Dwyrain Caerdydd, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Anna Graham | Rheolwr Gweithredol Tai Arbenigol, CC |

| | |
|---|---|
| Matt Osborne<br>Dr Siân Griffiths | Rheolwr Prosiect, BIP Caerdydd a’r Fro a CC<br>Rheolwr Gweithredol Diogelu a Chanolfan Adolygu, CC<br>Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus, BIP Caerdydd a’r Fro |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso / Ymddiheuriadau**<br><br>Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.<br><br>Nodwyd mai dyma gyfarfod olaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd Alun Michael. Diolchodd y Cadeirydd i Alun am ei gyfraniad i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn y DU ac, yn bwysicaf oll, yng Nghaerdydd. | |
| 2. | **Cofnodion a Chamau Gweithredu**<br><br>Nododd y Cadeirydd mai'r unig gam gweithredu sydd heb ei gyflawni - o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2024 – yw mewn perthynas â thrafodaeth ar y gronfa Ffyniant Gyffredin, a'i dyfodol, sy'n cael ei chynnal mewn cyfarfod y BGC yn y dyfodol. Nododd y Cadeirydd y bydd y drafodaeth hon yn cael ei chynnal yn yr Hydref.<br><br>**Cytunodd y BGC** i gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2024. | |
| 3. | **Diogelwch Cymunedol a Diogelu: Diweddariad**<br><br>Rhoddodd Sian Sanders ddiweddariad llafar i aelodau’r BGC ynghylch diogelwch cymunedol a diogelu.<br><br>**<u>Diogelu</u>**<br><br>Cyn y cyfarfod, rhoddwyd copi i aelodau'r BGC o Gynllun Blynyddol 2024-25 ac Adroddiad Blynyddol 2023-24 y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.<br><br>Pwysleisiodd Sian fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud i symleiddio trefniadau partneriaeth ar gyfer diogelu, gyda'r Cynllun Blynyddol newydd yn amlinellu blaenoriaethau a meysydd i'w gweithredu newydd dros y 12 mis sydd i ddod. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer 2024-2025 yn cynnwys:<br><br>1. Hanfodion diogelu<br>2. Adolygiadau diogelu effeithiol<br>3. Ymateb i themâu diogelu – cam-drin plant yn rhywiol, cam-drin domestig, a chapasiti a chydsyniad. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | **<u>Diogelwch Cymunedol</u>**<br><br>Cyn y cyfarfod, rhoddwyd diweddariad chwarter 4 i aelodau'r BGC hefyd gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd, yn ogystal â chopi o ddrafft terfynol Strategaeth a Chynllun Cyflawni Atal Trais Caerdydd.<br><br>Gwnaeth Sian aelodau'r BGC yn ymwybodol bod y Bwrdd Arweinyddiaeth Diogelwch Cymunedol ar hyn o bryd yn y camau cynnar o gwmpasu cynllun peilot atal trais gwell sy'n gysylltiedig â mannau defnyddio cyffuriau'n fwy diogel. Bydd y prosiect yn gofyn am ddull gweithredu ar y cyd a chytundeb ar y cyd.<br><br>Nododd Sian hefyd fod y gwaith o ddatblygu Cynllun Cymunedol Trelái a Chaerau bron wedi'i gwblhau, gyda chamau gweithredu ymarferol yn cael eu cytuno mewn cydweithrediad â'r gymuned. Cynigiwyd cynnal cyfarfod arbennig o'r BGC ddechrau mis Mai, er mwyn i Aelodau'r BGC dderbyn y cynllun terfynol, gyda'r Grŵp Cyfeirio Trelái a Chaerau Gweinidogol hefyd yn cael ei wahodd i fod yn bresennol.<br><br>Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC:<br><br>- Nododd y Cadeirydd fod Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn nodi bod Hunanasesiad wedi'i gwblhau ar gyfer y Bwrdd a gofynnodd am i hyn gael ei rannu gydag Aelodau'r BGC.<br><br>- Eglurodd Sarah McGill, yn dilyn symleiddio trefniadau partneriaeth, fod Bwrdd Arweinyddiaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd a Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn adrodd i BGC Caerdydd. Mae symleiddio'r trefniadau eisoes yn gweld buddion.<br><br>- Nododd Alun Michael ei fod yn hyderus bod y gwaith hwn yn mynd i'r cyfeiriad cywir a dywedodd fod yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) Peilot, yn ogystal â'r gwaith sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â datblygu Cynllun Cymunedol Trelái a Chaerau, yn rhagorol.<br><br>Nododd Alun fod angen canolbwyntio wrth symud ymlaen, nid yn unig yng Nghaerdydd ond ledled Cymru, ar fynd i'r afael â thrais domestig a marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | **Cytunodd y BGC i wneud y canlynol:**<br>• Cynnal cyfarfod arbennig o'r BGC ddechrau mis Mai, er mwyn derbyn y Cynllun Diogelwch Trelái a Chaerau terfynol, gyda'r Grŵp Cyfeirio Trelái a Chaerau Gweinidogol hefyd yn cael ei wahodd i fod yn bresennol.<br><br>**Cam Gweithredu:**<br>• Hunanasesiad Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro i gael ei rannu gydag aelodau'r BGC.<br><br>**<u>Gofal Iawn, Person Iawn</u>**<br><br>Rhoddodd y Prif Uwch-arolygydd Martyn Stone ddiweddariad llafar ynghylch gweithredu Gofal Iawn, Person Iawn (GIPI).<br><br>Nododd y Prif Uwch-arolygydd Stone fod y camau gweithredu yn wreiddiol fel a ganlyn:<br><br>- Cam 1: Pryderon am Les<br>- Cam 2: Absennol heb ganiatâd / Cerdded allan o'r ysbyty<br>- Cam 3: Cludiant i'r ysbyty<br>- Cam 4: Cleifion y Ddeddf Iechyd Meddwl ac A136<br><br>Cafodd Cam 1 ei weithredu ym mis Chwefror 2024. Nododd y Prif Uwch-arolygydd Stone fod nifer y galwadau, yn ymwneud â phryder am les a lle nad yw'r Heddlu yn derbyn cyfrifoldeb yn awtomatig mwyach, wedi bod yn isel ac nad oes cwynion wedi'u derbyn hyd yma.<br><br>Wrth symud ymlaen, er mwyn sicrhau bod GIPI yn parhau i gael ei weithredu yn y ffordd gywir, penderfynwyd y bydd Cam 2, a oedd i fod i gael ei weithredu ym mis Gorffennaf 2024, yn cael ei weithredu ym mis Medi 2024 yn lle. Bydd Cam 3, a oedd i fod i gael ei weithredu ym mis Hydref 2024, yn cael ei gyfuno â Cham 4 a'i weithredu ym mis Chwefror 2025.<br><br>Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC:<br><br>- Nododd Alun Michael ei fod yn falch o'r ffordd y mae GIPI yn cael ei weithredu yng Nghymru, fel menter ar y cyd ag asiantaethau eraill. Pwysleisiodd Alun ei bod yn bwysig bod dealltwriaeth gadarn o bwy fydd yn ymateb i alwadau sydd y tu allan i gylch gwaith yr Heddlu. | **Sian Sanders** |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | - Diolchodd Paul Bostock i'r Prif Uwch-arolygydd Stone a chydweithwyr am y dull a weithredwyd, yn enwedig yr hyblygrwydd a'r bragmatiaeth a ganiatawyd.<br><br>- Gofynnodd Claire Beynon am effaith GIPI ar anghydraddoldebau yn y boblogaeth, a chododd yr angen am sicrwydd nad yw anghydraddoldebau iechyd yn ehangu.<br><br>- Nododd y Prif Uwch-arolygydd Stone y byddai'n ddefnyddiol cynnal dadansoddiad o oblygiadau GIPI ar ganlyniadau cleifion, wedi'i rannu yn ôl grŵp demograffig, fel oedran a rhyw.<br><br>**Cam Gweithredu:**<br>• Cynnal dadansoddiad ynghylch goblygiadau Gofal Cywir, Person Cywir, ar ganlyniadau cleifion, wedi'i rannu yn ôl grŵp demograffig. | **Y Prif Uwch-arolygydd Martyn Stone** |
| **4.** | **Cynhwysiant Iechyd**<br><br>Cyflwynodd Dr Ayla Cosh, Paul Bostock, Lynne Topham, Matt Evans ac Anna Graham drosolwg o wasanaethau cynhwysiant iechyd cyfredol sy'n gweithredu yng Nghaerdydd, a rhesymeg dros ddatblygu gwasanaethau cynhwysiant iechyd ymhellach.<br><br>Roedd y cyflwyniad yn cynnwys cynnig i symud tuag at fodel gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol pwrpasol integredig wedi'i gydleoli ar gyfer grwpiau cynhwysiant iechyd sydd wedi'u diffinio'n glir sy'n profi'r canlyniadau iechyd gwaethaf, yn seiliedig ar ddull gweithredu â 3 haen:<br><br>- Haen 1: Cynigion Gofal Cyffredinol<br>- Haen 2: Gwasanaeth Cynhwysiant Gofal Iechyd wedi'i gomisiynu gan y Bwrdd Iechyd/Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr<br>- Haen 3: Gwasanaeth Arbenigol mewn meysydd â niferoedd uchel/cymhlethdod o ran unigolion sydd wedi'u hallgáu'n draddodiadol wedi'i gomisiynu gan y Bwrdd Iechyd/Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.<br><br>Mae'r ehangu arfaethedig yn canolbwyntio ar Haen 3, darparu gwasanaeth 'dim drws anghywir' aml-ddisgyblaethol, amlasiantaethol, cynhwysfawr, sydd wedi'i dargedu at unigolion ar ymyl anghydraddoldeb ac y mae eu hanghenion mor gymhleth na allant gael eu bodloni gan wasanaethau Haen 1 neu 2. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | Nodwyd bod llwyddiant y model hwn yn ddibynnol iawn ar sicrhau adeilad sy'n bodloni'r gofynion. Bydd angen adeilad pwrpasol newydd i gyflawni'n llwyddiannus y weledigaeth o wasanaethau wedi'u cydleoli.<br><br>Nodwyd ymhellach, wrth symud ymlaen, y bydd yr achos busnes yn cael ei drafod yng nghyfarfod Grŵp Buddsoddi Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 1 Mai. Bydd Panel Cynghori yn cael ei ddatblygu, sy'n cynnwys unigolion sydd â phrofiad bywyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni a datblygu'r model.<br><br>Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r BGC:<br><br>- *Sut y gallwn symud tuag at gyd-gomisiynu ac ariannu cynhwysiant iechyd i sicrhau bod y gwasanaeth wedi'i integreiddio'n llawn a'i fod yn gynaliadwy?*<br><br>- *Sut y gallwn gaffael llety i hwyluso cydleoli ac integreiddio gwasanaethau iechyd, cyngor a thrydydd sector?*<br><br>- *Sut y gallwn ddatblygu cyfleoedd, yn gyflym, gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF?*<br><br>Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC:<br><br>- Nododd y Cadeirydd ei bod yn bwysig ystyried y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer y gwasanaeth hwn, gydag Alun Michael yn adleisio ei sylw. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd pa ymyriadau polisi y gellir eu rhoi ar waith fel mater o atal, er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n cyflwyno yn y categori Haen 3.<br><br>- Nododd Paul Orders y byddai'n ddefnyddiol deall sut y bydd yr adnodd cyfredol yn cael ei ddefnyddio o fewn y model gwasanaeth newydd, gan ei fod yn cefnogi diwygio gwasanaethau cyhoeddus - gan newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau i gael budd sylweddol.<br><br>- Amlygodd Sarah McGill, er mai'r dewis, wrth edrych ymlaen, yw datblygu safle pwrpasol a pharhaol, y bydd hyn yn cymryd cryn dipyn o amser i'w wireddu. Y cwestiwn felly yw sut y gellir buddsoddi mewn datrysiad dros dro, a fydd yn creu buddion, ar yr un pryd ag y mae'r gofyniad hirdymor yn cael ei ddatblygu.<br><br>- Gofynnodd Sheila Hendrickson-Brown sut y bydd y trydydd sector yn ffitio yn y model gwasanaeth newydd a nododd y gallai fod cyfleoedd y gellir eu hystyried.<br><br>- Nododd Eirian Evans ei chefnogaeth i ddatblygu'r model gwasanaeth, yn enwedig cynnwys y rhai sydd â dedfryd fyrdymor | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | sy'n gadael y carchar fel rhan o'r poblogaethau sy'n gymwys ar gyfer Haen 3.<br><br>**Cytunodd y BGC i wneud y canlynol:**<br>• Cefnogi datblygu achosion busnes.<br>• Cefnogi cwmpasu/nodi opsiynau tir/adeiladau addas i gydleoli'r gwasanaethau angenrheidiol.<br><br>**Cam Gweithredu:**<br>• Diweddariad ar ehangu Gwasanaethau Cynhwysiant Iechyd i gael ei roi mewn cyfarfod y BGC yn y dyfodol, yn dilyn datblygu achos busnes. | **Ysgrifenyddiaeth y BGC** |
| **5.** | **Rhianta Corfforaethol**<br><br>Cyflwynodd Matt Osborne a Lucy Thomas Gynllun Rhianta Corfforaethol Cyngor Caerdydd, gan gynnwys yr hyn y gall partneriaid ei roi ar waith i gefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal fel rhan o gyfrifoldebau a rennir.<br><br>Mae Strategaeth Rhianta Corfforaethol Cyngor Caerdydd yn seiliedig ar bum blaenoriaeth allweddol:<br><br>- Blaenoriaeth 1: Gwella lles emosiynol ac iechyd corfforol<br>- Blaenoriaeth 2: Gwell cysylltiadau, gwell perthnasau<br>- Blaenoriaeth 3: Cartref cyfforddus, diogel a sefydlog tra mewn gofal ac ar ôl hynny<br>- Blaenoriaeth 4: Cyflawniad addysgol, cyflogaeth a hyfforddiant<br>- Blaenoriaeth 5: Dathlu ein plant a'n pobl ifanc<br><br>Mae'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol (PCRhC) yn goruchwylio'r gwaith o weithredu'r blaenoriaethau hyn drwy Gyfarwyddiaethau ehangach Cyngor Caerdydd.<br><br>Amlygwyd, o safbwynt partneriaeth, fod Siarter Rhianta Corfforaethol newydd wedi'i chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, gan gydnabod rhwymedigaethau rhianta a rennir a thynnu sylw at y ffaith bod angen i'r holl randdeiliaid gydweithio i gyflawni'r nodau hyn. Felly, nid yw'r Siarter yn gyfyngedig i gyrff cyhoeddus ac mae Llywodraeth Cymru yn croesawu aelodau o'r trydydd sector a'r sector preifat i gofrestru a dod yn Rhieni Corfforaethol.<br><br>Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i aelodau'r BGC:<br><br>- *A yw eich holl staff allweddol yn wybodus am Rianta Corfforaethol?*<br><br>- *Sut y gallwch chi hyrwyddo Rhianta Corfforaethol yn eich sefydliad?* | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | - *A allwch chi fabwysiadu Addewid Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru?*<br><br>- *A allwch chi greu eich Cynllun Gweithredu Rhianta Corfforaethol eich hun?*<br><br>- *A oes cyfleoedd i gefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal yn eich sefydliad?*<br>Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC:<br><br>- Amlygodd y Cadeirydd fod gwella canlyniadau i Blant sy'n Derbyn Gofal yn ddiddordeb ar y cyd. Mae'n bwysicach nag erioed blaenoriaethu dyletswyddau ar y cyd fel rhieni corfforaethol - mae'n rhywbeth sy'n berthnasol i bob aelod o'r BGC.<br><br>- Nododd Sarah McGill, o ystyried yr ystod enfawr o wasanaethau a ddarperir gan Gyngor Caerdydd a phartneriaid y BGC, ei bod yn hanfodol sicrhau bod system briodol ar waith i gysylltu cyfleoedd – er enghraifft, profiadau bywyd cadarnhaol, hyfforddiant a mentora un i un – gyda phob plentyn sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd. Felly, mae Cyngor Caerdydd yn cynnal ymarfer ar hyn o bryd i sicrhau bod pob cyfle a nodwyd yn cael ei fapio.<br><br>- Amlygodd Claire Beynon y byddai'n ddefnyddiol i gyflwyniad Matt gael ei roi i'r Swyddog Gweithredol Rheoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.<br><br>Cynigiodd Matt Osborne i roi'r cyflwyniad Rhianta Corfforaethol i unrhyw sefydliad sy'n gofyn amdano.<br><br>**Cytunodd partneriaid y BGC i ystyried:**<br>• Mabwysiadu Addewid Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru<br>• Creu Cynllun Gweithredu Rhianta Corfforaethol ar gyfer eu sefydliad<br>• Cyfleoedd i gefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal – a hyrwyddo Rhianta Corfforaethol - o fewn eu sefydliad.<br><br>**Cam Gweithredu:**<br>• Matt Osborne i roi'r cyflwyniad Rhianta Corfforaethol i unrhyw sefydliad sy'n gofyn amdano. | **Matt Osborne** |
| **6.** | **Cynllun Amddiffyn Iechyd Caerdydd a'r Fro**<br><br>Cyflwynodd Siân Griffiths Gynllun Amddiffyn Iechyd Caerdydd a'r Fro.<br><br>Mae'r Cynllun yn disgrifio sut y caiff perthnasau cyfredol eu datblygu, a sut y caiff y profiad o bandemig Covid-19 ei ddefnyddio, i gryfhau'r | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | system amddiffyn iechyd ranbarthol, yn unol ag egwyddorion cenedlaethol.<br><br>**Cytunodd y BGC i wneud y canlynol:**<br>• Cymeradwyo cynnwys Cynllun Amddiffyn Iechyd Caerdydd a'r Fro.<br>• Cefnogi'n weithredol gamau gweithredu i yrru’r gwaith o ddatblygu ac integreiddio gwasanaethau pellach ar draws y bartneriaeth. | |
| **7**. | **Unrhyw fater arall**<br><br>*Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Ymgynghoriad Trosolwg BGC Caerdydd*<br><br>Amlinellodd Gareth Newell yn gryno y dull arfaethedig o ddatblygu Adroddiad Blynyddol cyntaf y BGC yn erbyn y Cynllun Lles Lleol newydd ar gyfer 2023-28, yn ogystal ag Adroddiad Ymgynghoriad Trosolwg diwygiedig.<br><br>**Cytunodd y BGC i’r canlynol:**<br><br>• Bod Adroddiad Blynyddol y BGC, gydag atodiadau ategol, yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yng nghyfarfod y BGC ar 10 Gorffennaf 2024.<br>• Y gofynnir i Gadeiryddion byrddau partneriaeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Ysgrifenyddiaeth y BGC yn erbyn y blaenoriaethau partneriaeth a nodir yng Nghynllun Lles y BGC, yn ôl y gofyn.<br>• Bod Ysgrifenyddiaeth y BGC yn cael canlyniadau unrhyw ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu perthnasol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.<br><br>*Rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Lles yng Nghymru*<br><br>**Cytunodd y BGC** i ohirio'r eitem hon i'r cyfarfod nesaf. | |